
MANTELL
GWYNEDD
*Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol*
*Supporting voluntary and community groups*

# CRONFA GRANT SECTOR WIRFODDOL MANTELL GWYNEDD



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# CRONFA SECTOR WIRFODDOL MANTELL GWYNEDD

## Cefndir

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn gronfa newydd sydd yn werth £2.6, biliwn i'r DU. 'Roedd yn olynu hen gronfeydd strwythurol y DU. Mae'r arian hwn wedi mynd yn syth i gymunedau lleol, ledled Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ac wedi ei fuddsoddi mewn tair blaenoriaeth leol; cymunedau a lle, cymorth i fusnesau lleol a phobl a sgiliau.

Daeth £126.4m o'r arian i Ogledd Cymru gyda Gwynedd yn derbyn £24.4m . Yng Ngwynedd rhannwyd yr arian yn ddwy ran sef £11.2m fel cronfa gystadleuol a £9m fel Cronfeydd Grant. Llwyddodd Mantell Gwynedd i gael £1.5m i'w ddyrannu fel Cronfa Sector Wirfoddol.

Ffurfiwyd Cronfa Sector Wirfoddol Mantell Gwynedd gan gynnig rhwng £2k a £250k i gefnogi prosiectau lleol fyddai yn arwain at wella safon bywyd trigolion a Chymunedau Gwynedd. 'Roedd angen dangos sut y byddai pob prosiect yn cryfhau yr ymdeimlad o falchder cymunedol a/neu yn adeiladu cymunedau diogel a iachach.

Mae'r llyfryn yma yn dangos sut dyrannwyd y Gronfa Grant Sector Wirfoddol yng Ngwynedd, pa gymunedau ac ardaloedd sydd wedi cael budd, a sut yr ydym wedi mynd ati i fesur gwerth y buddsoddiad pwysig yma.

SWYDDFA GOFRESTREDIG
25 Y Bont Bridd, Caernarfon
Gwynedd, LL55 1AB
Ffôn: 01286 672 626
ymholiadau@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 | Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant: 3420271 | Cofrestrwyd yng Nghymru



## Rhagair

Ers sefydlu Mantell Gwynedd ym 1997 mae gweinyddu cronfeydd grantiau a dyrannu arian grant wedi bod yn rhan o waith craidd Mantell Gwynedd.

Mae pob cronfa grant newydd yn dod gyda'i heriau ac, heb os, amserlen dynn oedd yr her fwyaf oeddem yn ei hwynebu wrth geisio gweinyddu Cronfa Sector Wirfoddol Mantell Gwynedd.

Cawsom wybod y byddem yn gweinyddu cronfa werth £1.5m yn ystod mis Awst 2023 ac erbyn mis Medi 'roedd y Gronfa Sector Wirfoddol Mantell Gwynedd wedi ei lansio a Phanel Grant yn dyfarnu ar geisiadau yn ystod mis Tachwedd. Aeth y taliadau cyntaf allan yn ystod mis Rhagfyr 2023.

Gyda phob cyfle newydd fel hyn daw her ond yr hyn a wyddwn yn bendant yw fod y sector gymunedol a gwirfoddol yng Ngwynedd bob amser yn medru ymateb yn chwim ac yn gadarnhaol. Derbyniwyd 88 o geisiadau gwerth chweil oedd yn werth £5.8m. 'Roedd safon uchel y ceisiadau yn destament i ymroddiad a gallu y sector yng Ngwynedd i fedru ymateb. Gyda £1.5m i'w rannu bu'n broses boenus o anodd i ddewis a dethol y rhai llwyddiannus. Daeth 36 prosiect i'r brig ar ddiwedd y broses ddyfarnu.

Bu i'r 36 mudiad llwyddiannus orfod mynd ati yn ddiymdroi er mwyn cwblhau eu prosiectau a sicrhau gwariant llawn erbyn Rhagfyr 2024. Mae'r gweithredu chwim yn dystiolaeth o wytnwch cymunedol arbennig Gwynedd.

Fel y gwelwch o gynnwys y llyfryn yma sydd yn adrodd hanes y Gronfa Sector Wirfoddol, mae'r hyn sydd wedi ei ariannu trwy'r Gronfa yn amrywiaeth enfawr o weithgareddau a datblygiadau cymunedol. Mae'r prosiectau wedi gweld buddsoddiad mewn canolfannau cymunedol , ynni gwyrdd ac amrediad o weithgareddau ar gyfer poblogaeth o bob oedran. Ond yr hyn sydd hefyd yn bwysig iawn i'w nodi yw ein bod wedi sicrhau buddsoddiad teg reit ar draws y sir yn ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Does na ddim un ardal o fewn y Sir wedi ei gadael allan.

Mae fy niolch yn fawr i holl staff Mantell Gwynedd am ymateb mewn ffordd wirioneddol egnïol, ffordd sydd wedi sicrhau buddsoddiad mewn pethau fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn ar draws y Sir. Diolch hefyd, yn arbennig, i holl griw Cronfa Ffyniant Gyffredin Cyngor Gwynedd. Mae'r cydweithio wedi bod heb ei ail ac yn dangos beth ellir ei gyflawni er budd trigolion Gwynedd wrth i ni weithio gyda'n gilydd mewn ffordd adeiladol ar draws sectorau.

Edrychwn ymlaen rwan am y talp nesaf o arian ar gyfer Gwynedd fel ein bod, unwaith eto, yn medru cydweithio er budd ein cymunedau yng Ngwynedd.

**Bethan Russell Williams**
**Prif Swyddog**
**Mantell Gwynedd**

# Lleoliad Grantiau




**ARFON**

- Codi'r To-Bangor a Chaernarfon
- Community Arts Project, Bangor
- Banc Bwyd Arfon, Caernarfon
- Caban Cynfi Pentre, Deiniolen
- Neuadd Bentref Y Groeslon
- Tŷ Elidir, Deiniolen
- Neuadd Ogwen, Bethesda
- Neuadd Goffa Llanllyfni
- Seindorf Arian Dyffryn Nantlle
- Canolfan Gymdeithasol Talysarn
- Neuadd Bentref Rhiwlas
- Canolfan Tregarth
- Neuadd y Pentref Carmel
- Seindorf Deiniolen
- Clwb Peldroed Caernarfon

**MEIRIONNYDD**

- Eglwys Bedyddwyr Tywyn
- Sied Egryn, Llanegryn
- Clwb Rygbi Dolgellau
- Barmouth Oasis Nursery
- Y Capel Bach, Trawsfynydd
- Neuadd y Pentre, Bontddu
- Clwb Rygbi Bro Ffestiniog
- Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont
- Canolfan Cymuned Y Parc, Y Bala
- South Gwynedd Older Persons Forum, Tywyn
- Friends of Wernymynach, Bermo
- Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog

**DWYFOR**


- Clwb Rygbi Pwllheli
- Neuadd Goffa Penmorfa a'r Cylch
- Cymdeithas Chwaraeon Bro Eifl
- Ynni Llŷn, Pen Llŷn
- Cae Chwarae Rhydyclafdy
- Hafod Ceiri, Llithfaen
- Canolfan Adloniant Aberdaron

**GWYNEDD GYFAN**


- Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri
- Partneriaeth Awyr Agored



## Symiau grant a ddyrannwyd ar draws Gwynedd




## Canran o swm grant a ddyrannwyd ar draws Gwynedd



# Y mudiadau fu'n llwyddiannus

## Seindorf Arian Dyffryn Nantlle

**£120,350**

Adnewyddu adeilad Cwt Band y Seindorf yn Nhalysarn gan gynnwys trin pydredd sych, gosod lloriau newydd, system wresogi ac awyru newydd, plastro, ail-weirio, cegin newydd a gosod paneli solar.

*"Heb gwt, dim hanes, heb hanes, dim dyfodol - bandio'n mlaen hefo'n gilydd".*



## Sistema Cymru - Codi'r To

**£22,639**

Datblygu cyfleoedd tiwtora offerynnau pres yn ardal Arfon i blant a phobl ifanc.



*“Gweithdy hwyliog iawn a'r plant wedi mwynhau gallu cymryd rhan ymarferol a chyd-chwarae darn o gerddoriaeth yn y sesiwn”* – Pennaeth Ysgol Gynradd

*"Nes i fwynhau pryd oedd y ni ar y drwm oherwydd bod y ni gyd efo ei gilydd pan o ni ar y drwm, roedd yn lot o hwyl cael dysgu yr offerynau taro”* – Disgybl Ysgol Gynradd

## Neuadd Bentref Rhiwlas

**£40,995**

Gosod paneli solar a batris yn y neuadd er mwyn lleihau costau ynni a gweithio tuag at fod yn net sero fel Neuadd.



*“Mae'r grant ar gyfer paneli solar wedi gwneud Neuadd Bentref Rhiwlas yn wirioneddol gynaliadwy, o ran carbon a hefyd yn ariannol.”*

## Banc Bwyd Arfon, Caernarfon

**£17,334**

Penodi Swyddog Cydlynu Gwirfoddolwyr i recriwtio a chefnogi mwy o wirfoddolwyr.



*“Mae cael y Grant gan yr SPF wedi'n galluogi i recriwtio rhagor o wirfoddolwyr yn y banc bwyd, ac rydyn ni wedi gallu cefnogi, a chael cefnogaeth gan, dîm arbennig o fwy nag 84 o wirfoddolwyr. Mae hynny wedi'n galluogi ni i roi bwyd a chyngor i fwy na 300 o deuluoedd ac unigolion mewn argyfwng tlodi.”*

## Community Arts Project, Bangor

**£7,125**

Creu arddangosfa celf yn Pontio, Bangor




*“Mae cyfansoddi cerddoriaeth eto ar ôl sawl blwyddyn o iechyd meddwl gwael wedi rhoi'r cyfle i mi seinio fy llais fy hun a magu hyder. Edrychaf ymlaen yn awr at fynd â'r Prosiect i gynulleidfa ehangach fyth. Gobeithiwn wneud hyn trwy "siopau chwarae" lle mae artistiaid( a rhai nad ydynt yn artistiaid) yn cydweithio'n greadigol i Swnio Eich Llais -Be Heard - Re-Connect - ADFER!”*

## Arfon



## Neuadd y Pentref Carmel

**£11,250**

Gosod paneli solar ar y Neuadd

*“Yn dilyn derbyn grant i osod paneli solar ar do'r neuadd, mae'r pwyllgor wedi gweld gostyngiad yng nghostau rhedeg y neuadd. Rydym yn rhagweld y byddwn yn arbed tua £500 y flwyddyn. Mae'r arbediad hwn yn ein costau yn ein galluogi i gadw prisiau llogi'r neuadd heb orfod cynyddu gyda chwyddiant, ac mae hyn wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd ariannol i'r Cylch Meithrin.”*

## Tŷ Elidir, Deiniolen

**£10,000**

Gosod system wresogi newydd yn Nhŷ Elidir, Deiniolen

*“Mae darparu gwresogyddion yn ein adeilad, Tŷ Elidir Deiniolen, wedi gwneud gwahaniaeth mawr gyda'r ystafelloedd yn llawer fwy clyd”*

## Neuadd Ogwen, Bethesda

**£24,430**

Darparu gweithgareddau a chyfleoedd i blant a phobl ifanc ynghyd â chwblhau addasiadau i'r ymolchfa a lifft

*“Mae'r gefnogaeth ariannol wedi galluogi Neuadd Ogwen i wella ein cyfleusterau a gwneud ein canolfan yn fwy hygyrch. Mae hefyd wedi galluogi tanio gweithgaredd megis clwb drama, dawns ac ysgol roc yn dilyn Cofid-19.0 ganlyniad i'r gefnogaeth mae'r gweithgaredd yma yn parhau ac yn ffynnu.”*



# Y mudiadau fu'n llwyddiannus

## Neuadd Goffa Llanllyfni

**£21,250**

Gosod paneli solar, cwblhau addasiadau mewnol a gosod cegin newydd



*“Diolch i griw Mantell Gwynedd am y cyngor a'r arweiniad gawson ni fel pwyllgor wrth drio am grant i wella'r Neuadd. Erbyn hyn mae na gegin newydd sbon yma, ac mae'n edrych yn wych! Pawb yn brolio! Wedi codi calon y pwyllgor hefyd - diolch o galon!”*

## Caban Cynfi, Deiniolen

**£79,872**

Creu canolfan gymunedol aml-bwrpas o'r enw Caban Cynfi





*“Mae gallu gwireddu'r freuddwyd o greu canolfan aml-bwrpas Caban Cynfi yn gwbl amhrisiadwy. Mewn cymuned lle mae adnoddau yn brin bydd Caban Cynfi yn cynnig lloches, cynhaliaeth a chyfleoedd dirifedi i drigolion ardal Deiniolen a'r cylch.”*

## Neuadd Bentref Y Groeslon

**£11,910**

Gosod llawr newydd a pheintio'r neuadd



*“Llwyddodd Neuadd Bentref Y Groeslon i sicrhau arian grant ar gyfer prosiect i ail wynebu llawr a phaentio'r neuadd. Mae hyn wedi cael effaith bositif iawn ar ddefnyddwyr y neuadd.”*

## Canolfan Tregarth

**£7,442**

Gosod ffenestri a phrynu cadeiriau newydd yn y ganolfan.

*“Mae derbyn grant wedi bod yn drobwynt i Ganolfan Tregarth. Heb y cymorth ariannol allweddol hwn, ar gyfer gwelliannau hanfodol, byddai Canolfan Tregarth mewn sefyllfa llawer gwannach ar gyfer darparu'r adnodd gwerthfawr hwn i bobl Tregarth a'r fro.”*



# Arfon

## Seindorf Arian Deiniolen

**£6,950**

Datblygu prosiect tiwtora i blant a phobl ifanc Deiniolen a'r cylch.

*“Mae'r gwersi 'Band i Bawb' wedi bod o fudd mawr i'r unigolion sydd wedi cymryd rhan. Cawsom gyfanswm o 9 unigolyn yn penderfynu cymryd gwersi, ac maent i gyd wedi bod yn falch iawn o'r cyfle, wedi mwynhau'r gwersi yn fawr, ac wedi penderfynu parhau i chwarae. Byddant i gyd symud ymlaen i'r Band Cymunedol sydd gennym yma fel sefydliad.”*

## Clwb Pêl-droed Caernarfon

**£47,486**

Gosod goleuadau LED ar gyfer y clwb

*“Rydyn ni'n hynod ddiolchgar am y grant sydd wedi'n galluogi ni i uwchraddio'r system goleuo, ac a fydd, yn y tymor hir, yn fwy effeithlon o ran ynni ac o ran cost, a gobeithio y bydd yn galluogi mwy o gemau gyda'r nos yn cynnwys ein timau Merched ac Academi.”*





## Canolfan Gymdeithasol Talysarn

**£9,966**

Grant i osod paneli solar a batris

*“Mae cael y grant i alluogi i ni gael paneli solar a batri wedi rhoi hwb i ni fel pwyllgor. Rydym wedi cael tawelwch meddwl ar gyfnod gweddol ansicr gyda chostau ynni yn mynd i fyny yn aruthrol. Rydym hefyd yn gallu edrych ar gefnogi mwy o grwpiau sydd yn trefnu gweithgareddau yn Y Ganolfan, gan gadw costau llogi'n sefydlog ac yn fforddiadwy.”*

# Y mudiadau fu'n llwyddiannus

Dwyfor

## Neuadd Goffa Penmorfa a'r Cylch

**£97,900**

Adnewyddu'r ganolfan yn cynnwys ail-doi; lloriau newydd, peintio, gwaith trydanol a gwella cyfleusterau snwcer y neuadd.





*"Mae'r gefnogaeth ariannol wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i ni yn y pentref gan sicrhau fod y neuadd yn gallu parhau i gynnig ystod o weithgareddau i drigolion Penmorfa a'r cylch. Heb y cymorth ariannol hwn roedd yn debygol y byddai wedi bod yn rhaid cau y neuadd.*

*Mae'r neuadd bellach yn fwy effeithlon o ran defnydd o ynni ac mae'r cyfleusterau wedi eu huwchraddio yn sylweddol ac mae'n braf gweld y neuadd yn cael defnydd unwaith eto yn arbennig gan bobl ifanc y pentref."*

## Clwb Rygbi Pwllheli

**£27,070**

Gosod goleuadau LED ar gaeau'r clwb.



*"Mae'n sicr bydd y prosiect gosod goleuadau LED o fudd mawr i'r gymdeithas leol. Mae yn hanfodol bwysig i'r Clwb sicrhau fod ein plant a'n pobl ifanc yn cael yr adnoddau gorau posib i ddatblygu eu sgiliau. Bydd y system newydd yn gaffaeliad mawr i chwaraewyr rygbi o bob oedran ar Ben Llŷn."*

## Ynni Llŷn

**£35,317**

Recriwtio Cynghorydd Ynni i ddarparu archwiliadau ynni yn y cartref a chyngor budd-daliadau wedi'u teilwra i anghenion penodol trigolion lleol.

Ynni Llŷn

*"Mae'r grant wedi ein galluogi i recriwtio aelod o staff i'n Prosiect Gwres a Lles a'u hyfforddi i allu darparu cyngor budd-daliadau ac ynni. Mae hwn yn wasanaeth gwerthfawr ac rydym wedi cysylltu â phobl yn y gymuned sy'n agored i niwed, ac yn parhau i gysylltu â nhw, i'w helpu i gael gafael ar y budd-daliadau y maen nhw'n gymwys i'w cael, a hefyd eu helpu i ddefnyddio ynni mewn modd mor effeithlon â phosib yn eu cartrefi."*



## Hafod Ceiri, Llithfaen

**£98,795**

Addasu'r capel fel caffi

*"Mae'r grant wedi sicrhau adnoddau sef cegin, toiledau, gwres a golau mewn adeilad newydd sy'n gweithredu fel caffi ar gyfer y gymuned ac ymwelwyr â'r ardal. Diolch i'r grant, mae gennym sylfaen gref ar gyfer gwireddu breuddwyd ehangach y prosiect.*

## Cymdeithas Chwaraeon Bro Eifl

**£80,000**

Gosod offer ar gyfer cae chwarae newydd gydag offer cyfoes a hygyrch, a ffens i'w wahanu o'r cae chwarae mawr.

*"Mae'r grant wedi ein galluogi i adnewyddu y parc chwarae yn y pentref i gyd fynd efo dymuniadau'r gymuned. Mae'r parc ar ei newydd wedd yn adnodd cyfoes a diogel i blant yr ardal ymgynnull a chwarae yn yr awyr iach."*








# Y mudiadau fu'n llwyddiannus







## Cae Chwarae Rhydyclafdy

**£86,445**

Datblygu cae chwarae newydd i'r pentref

*"Mae'r prosiect yma wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i gymuned Rhydyclafdy. Mae mor braf fod gan y plant le diogel i chwarae a bod teuluoedd yn gallu mwynhau treulio amser yn yr awyr agored."*





## Canolfan Adloniant Aberdaron

**£20,154**

Gwella adnoddau a datblygu'r Ganolfan gan gynnwys peintio, boiler newydd a gwella'r stafell snwcer.

*"Mae'r arian a dderbyniwyd wedi gwneud gwahaniaeth i Ganolfan Adloniant Aberdaron, trwy gael uwchraddio gwaith trydanol, plymio, paentio a thacluso fel arall! Rydym fel pwyllgor yn hynod ddiolchgar a gobeithio bydd pobl yr ardal yn cael defnydd o'r Ganolfan yn y dyfodol!"*



# Meirionnydd

## Oasis Nursery y Bermo

**£2460**

Datblygu ysgol goedwig gyda'r plant yn mynychu'r ardd cymunedol yn y Bermo.



*"Mae wedi darparu cyfleoedd dysgu amhrisiadwy i'n plant. Mae wedi meithrin ynddynt gariad tuag at yr awyr agored, eu hamgylchedd a'r broses o edrych ar ôl ein hamgylchedd naturiol, a thyfu ffrwythau a llysiau ein hunain. Gyda'r grant yma rydym wedi wir fedru rhoi sgiliau a gwybodaeth amhrisiadwy i'n plant ifanc."*



## Friends of Wern Mynach, y Bermo

**£2,487**

Gosod system casglu dŵr glaw yn yr ardd gymunedol yn Y Bermo.

*"Prosiect gwych i fod yn rhan ohono, ac mae'n braf gweld yr holl wahanol bobl yn mwynhau ac yn cymryd rhan."*

## Clwb Rygbi Dolgellau

**£47,475**

Gosod goleuadau LED i'r caeau/adeilad y clwb ynghyd â ffenestri newydd.

*"Mae'r chwaraewyr sy'n defnyddio'r llifoleuadau wedi sylwi ar y gwelliant mae'r goleuadau'n ei wneud ar gyfer gemau a hyfforddiant. Rydym hefyd wedi elwa o ffenestri newydd drwy'r adeilad, a dodrefn newydd yn yr ystafell gyfarfod. Mae'r grwpiau sy'n defnyddio'r cyfleusterau i gyd wedi sylwi faint cynhesach a chroesawgar yw'r adeilad, ac rydym wedi gweld cynnydd yn y defnydd ohono."*

## Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont

**£26,060**

I osod offer cae chwarae ar gyfer y gymuned gan gynnwys zipwire er mwyn cynyddu cyfleoedd chwarae i blant o bob oedran.

*"Mae'r grant wedi gwneud gwahaniaeth mawr gan bod mwy o blant y pentref yn ei ddefnyddio gan gynnwys rhai o ardaloedd cyfagos."*



# Y mudiadau fu'n llwyddiannus

## Y Capel Bach, Trawsfynydd

**£129,304**



Adnewyddu'r Capel Bach yn Nhrawsfynydd yn cynnwys ail-doi, ffenestri newydd, ail-blastro, system wresogi, pwmp gwres o'r aer a chegin newydd.

*"Mae'r grant hwn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'n grŵp. Roedd ein adeilad yn hen, yn ddrud i'w redeg ac yn straen ar ein hadnoddau. Mae'r cyllid wedi ein galluogi i insiwleiddio'r adeilad a'i wneud yn llawer mwy effeithlon o ran ynni. Mae'r adeilad bellach yn ofod ecogyfeillgar, dymunol a chyfforddus ar gyfer pob un o'r grwpiau cymunedol sydd yn ei ddefnyddio a fydd yn defnyddio'r gofod yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod."*

## Neuadd y Pentre, Bontddu

**£83,540**

Adnewyddu'r ganolfan yn cynnwys ffenestri, system wresogi a chegin newydd



*"Mae'r grant wedi bod yn achubiaeth i adeilad Neuadd y Pentre, ac i'r gymuned leol yn y Bontddu. Mae'r pentref wedi colli'i dafarn, ei ysgol a'i siop leol, felly'r Neuadd yw'r unig adeilad cymunedol sydd ar gael i ni. Mae'r gwaith ailwampio wedi rhoi balchder o'r newydd yn eu cymuned i drigolion, ynghyd â brwdfrydedd dros ddigwyddiadau cymunedol."*

## Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog

**£123,030**

Adnewyddu'r ganolfan drwy osod ffenestri, drysau a system wresogi newydd



*"Mae derbyn y grant Ffyniant Gyffredin drwy Mantell Gwynedd wedi bod yn newid anhygoel i'r Ganolfan Gymdeithasol yma yn Blaenau Ffestiniog. Cawsom ffenestri a boiler newydd drwy'r adeilad ac mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ni a phellach yn adeilad llawer mwy cynnes a chartrefol. Yn dilyn y gwaith rydym yn cael dipyn mwy o defnydd gan grwpiau a thrigolion yr ardal a rwan yn cynnig croeso cynnes i bawb!"*



Meirionnydd



## Canolfan Cymuned Y Parc

**£15,417**

Comisiynu astudiaeth dichonoldeb a datblygu cynlluniau ar gyfer uwchraddio'r Ganolfan.

*"Mae'r Grant wedi'n galluogi i symud ymlaen efo'n cynllun datblygu manwl ar gyfer y dyfodol i ddatblygu ac uwchraddio cyfleusterau'r Ganolfan sef hen Ysgol Gymuned y Parc. Ein gobaith yn awr yw medru symud ymlaen i geisio grant llawn ar gyfer gwireddu'r cynlluniau hyn."*

## Eglwys Bedyddwyr Tywyn

**£25,890**

Gosod paneli solar a gwresogyddion effeithlon yn y Capel/hwb cymunedol

*"Mae'r Gronfa Ffyniant Cyffredin wedi ein galluogi ni yn Eglwys Bedyddwyr Tywyn i osod paneli solar gyda batris storio 40kw. Hefyd, rydyn ni wedi gosod system wresogi arbenigol mewn rhan o'r adeilad sydd wedi'i ddynodi'n fan cynnes ac wedi croesawu pobl i ddefnyddio'r fan honno fel rhan o estyn allan yr Hwb Cymunedol."*



## Clwb Rygbi Bro Ffestiniog

**£65,035**

Gosod paneli solar, ffenestri a boiler newydd a thrwsio'r pileri'r fynedfa.

*"Mae Clwb wedi cael budd o dderbyn grant wedi cael effaith anhygoel ar ein biliau trydan, ac ar gynhesrwydd y clwb. Mae ceisio cael y clwb yn sero net yn golygu ein bod yn gallu cymryd rhan yn yr agenda newid hinsawdd."*



# Y mudiadau fu'n llwyddiannus

## Fforwm Pobl Hŷn De Gwynedd, Tywyn

**£3,040**

Cynnal cyfres o weithgareddau ynghyd â phrynu offer newydd i'r fforwm.

*"Mae'r grant wedi ein galluogi i ail-sefydlu sylfaen gadarn o gyfarfodydd rheolaidd, sy'n cael eu cefnogi'n dda gan y gymuned. Yn yr un modd, bydd yr offer ychwanegol sydd wedi'i gaffael ag arian y grant yn arwain at welliant syfrdanol yn ein rhaglen ddigwyddiadau gyda siaradwyr allanol, a byddant yn arbennig o ddefnyddiol mewn sesiynau rhyngweithiol. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr gyda thymor 2025 yn nesáu."*









## Sied Egryn, Llanegryn

**£27,644**

Prynu deunyddiau i wella ac ymestyn Sied Egryn gyda gwirfoddolwyr yn cwblhau'r gwaith.

*"Mae'r grant gan Mantell Gwynedd ar gyfer ein prosiect wedi hwyluso'r broses o adeiladu gofod cymunedol newydd drwy ymdrech gwbl wirfoddol. Mae'r cyfle hwn wedi creu nod cyffredin – ac ymdeimlad o berthyn yn y gymuned. Bydd y gweithdy a'r gofod dan do y tu allan yn creu'r cyfle i gynnal gweithgareddau cymunedol am flynyddoedd i ddod."*



## Gwynedd gyfan

## Partneriaeth Awyr Agored

**£8,688**

Hyfforddi a chefnogi Llysgenhadon gwirfoddol i weithio gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored i gryfhau cymunedau o fewn Gwynedd.

*"Mae'r grant Ffyniant Cyffredin wedi ein galluogi i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn uniongyrchol efo ni, ar draws Gwynedd, i greu cyfleoedd a hybu pobl ar draws yr ardal i drio gweithgareddau awyr agored, er budd eu iechyd a lles."*







## Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri

**£9,600**

Comisiynu arolwg proffesiynol ar gyfer cydymffurfio gyda safon Llwybrau Cenedlaethol.

*"Mae'r grant eisoes wedi ein harwain i gyfrannu at rai prosiectau i wella mynediad ar hyd y Llwybr, ac i symud ymlaen â'n prosiect bydd byrddau gwybodaeth yn cael eu gosod yn yr haf."*

# Gwerthusiad

Mesurwyd gwerth beth sy'n cael ei gynhyrchu

# AM BOB £1 SYDD WEDI EI FUDDSODDI

## Y Ganolfan Cymdeithasol Bro Ffestiniog

Adroddiad Rhagolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad Ionawr 2024 - Rhagfyr 2025

SOCIAL VALUE CYMRU

### Mewn Niferoedd

Mae yna **1,126** o bobl yn y gymuned

Mae **22** o grwpiau cymunedol yn rhan o'r Ganolfan

Mae yna **6** gwirfoddolwr

Llwyddodd Y Ganolfan i gael **£123,303** o arian grant i uwchraddio'r adeilad

### Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**Pobl yn y gymuned**
**22** cyfweliad personol
**1** grŵp ffocws personol gydag 8 o bobl
**131** o ymatebion i'r arolwg

**Grwpiau cymunedol**
**10** cyfweliad personol
**1** cyfweliad ffôn
**10** ymateb i'r arolwg

**Gwirfoddolwyr**
**4** cyfarfod gyda'r gwirfoddolwyr
**1** grŵp ffocws gyda **3** gwirfoddolwr
**3** ymateb i'r arolwg

### Deilliannau i bobl yn y gymuned

Mae **66% o'r bobl** yn y gymuned leol yn teimlo ymdeimlad cynyddol o berthyn o fewn y gymuned trwy allu cymryd rhan

Mae **73% o bobl** yn y gymuned yn teimlo'n llai unig ac ynysig oherwydd eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau

Mae **69% o bobl** yn y gymuned yn profi gwelliant yn eu hiechyd meddwl oherwydd eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau

Mae **73% o'r bobl** sy'n defnyddio'r cyfleusterau yn Y Gampfa yn profi gwelliant yn eu hiechyd corfforol o ganlyniad

### Grwpiau cymunedol

Mae **80%** o'r grwpiau yn teimlo ymdeimlad cynyddol o berthyn oherwydd eu bod yn rhan o'r Ganolfan

Mae **80%** o'r grwpiau bellach yn teimlo'n falch o fod yn rhan o'r Ganolfan oherwydd y gwelliannau diweddar

Teimla **80%** o grwpiau eu bod bellach yn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol oherwydd bod dyfodol hirdymor Y Ganolfan yn ddiogel

### Gwirfoddolwyr

Mae **100%** o'r gwirfoddolwyr yn teimlo gwelliant yn eu hunanhyder

Mae **100%** o'r gwirfoddolwyr yn teimlo ymdeimlad o falchder o allu gwella dyfodol y gymuned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae **100%** o'r gwirfoddolwyr yn profi ymdeimlad o berthyn o fewn y gymuned

### Rhagolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)*




*Gweler yr adroddiad rhagolwg llawn am ragor o wybodaeth



Cwblhawyd adroddiad Mesur Gwerth Cymdeithasol ar 3 prosiect gan ddefnyddio methodoleg SROI. Roedd y 3 prosiect ar draws Gwynedd, un yn ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd sef **Banc Bwyd Arfon, Hafod Ceiri** yn Llithfaen a **Chanolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog** ym Mlaenau Ffestiniog.

## Banc Bwyd Arfon

Adroddiad Rhagolwg Adenillion ar Fuddsoddiad Ionawr 2024 - Rhagfyr 2025

SOCIAL VALUE CYMRU

Gyda'n gilydd gyda Trussell
Bancbwyd Arfon Foodbank
Together with Trussell

### Mewn Niferoedd

**43** o wirfoddolwyr gweithgar yn gweithio yn y banc bwyd

Bydd gwirfoddolwyr yn rhoi tua **10,141** o oriau i'r banc bwyd Cefnogwyd **878** o ymwelwyr 7 aelod yn y Tîm Rheoli Craidd

### Gwirfoddolwyr

Mae **85%** o wirfoddolwyr yn teimlo bod ganddynt fwy o rym yn y broses benderfynu

Mae **90%** o wirfoddolwyr yn teimlo ymdeimlad o berthyn i Fanc Bwyd Arfon

Mae **95%** o wirfoddolwyr yn falch ac wedi profi ymdeimlad o gyflawniad o allu rhoi yn ôl i'r gymuned

### Tîm Rheoli Craidd

Mae **100%** o aelodau'r tîm rheoli craidd yn teimlo llai o straen oherwydd bod y cydlynydd gwirfoddolwyr yn rhan o'r tîm

Mae **100%** o'r tîm rheoli craidd yn teimlo eu bod bellach wedi gwella eu gallu oherwydd bod y cydlynydd gwirfoddolwyr yn rhan o'r tîm

### Rhagolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)*




*Gweler yr adroddiad rhagolwg llawn am ragor o wybodaeth

### Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**Pobl yn y gymuned**
**10** cyfweliad personol
**20** ymateb i'r arolwg

**Ymwelwyr**
**3** chyfweliad personol
**1** cyfweliad ffôn tîm
**29** o ymatebion i'r arolwg

**Tîm Rheoli Craidd**
**5** cyfarfod personol gyda'r
**4** cyfarfod ar-lein
**1** ymateb i'r arolwg

### Ymwelwyr

Mae **69%** o ymwelwyr yn teimlo bod ganddyn nhw fwy o annibyniaeth a rhagolygon ariannol gwell ar ôl cael cymorth

Mae **69%** o ymwelwyr yn profi newid cadarnhaol yn eu lles meddyliol oherwydd y gefnogaeth a gynigir gan Fanc Bwyd Arfon

Mae **78%** o ymwelwyr yn profi newid cadarnhaol yn eu hiechyd corfforol

### Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

**Cymru o Gymunedau Cydlynol**
Mae'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer y gwirfoddolwyr i gyd yn ymwneud â gwelliant yn y gymuned leol a sut mae gwaith gwirfoddolwyr y banc bwyd o fudd i bobl y gymuned leol.

**Cymru Iachach**
Mae'r canlyniadau a nodir ar gyfer yr ymwelwyr i gyd yn ymwneud â'u llesiant meddyliol a chorfforol a sut mae'r gwasanaeth banc bwyd yn rhan annatod o'r deilliannau hynny.

# Hafod Ceiri, Llithfaen

Adroddiad Rhagolwg Adenillion ar Fuddsoddiad
Ebrill 2024 - Mawrth 2026

# Mewn Niferoedd

Disgwylir **150** o drigolion lleol

Disgwylir **20** o wirfoddolwyr

Bydd gwirfoddolwyr yn rhoi dros **5,000** o oriau i helpu rhedeg y caffi

Llwyddodd Hafod Ceiri i gael **£98,795** o arian grant i agor caffi newydd yn Llithfaen

## Gwirfoddolwyr

Mae **100%** o wirfoddolwyr yn rhagweld bydd eu teimlad o berthyn i gymuned yn cynyddu

Mae **63%** o wirfoddolwyr yn rhagweld y bydd eu teimlad o bwrpas yn cynyddu

Mae **100%** o wirfoddolwyr yn rhagweld y byddant yn teimlo'n llai unig



## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

### Gwirfoddolwyr

**2** grŵp ffocws gyda'r gwirfoddolwyr
**8** ymateb i'r holiadur

### Trigolion

**2** grŵp ffocws gyda'r trigolion
**2** sgwrs un i un
**20** ymateb i'r holiadur

## Trigolion

Mae **70%** o drigolion yn rhagweld byddan nhw yn teimlo'n llai unig

Mae **100%** o drigolion yn rhagweld bydd eu teimlad o berthyn i gymuned yn cynyddu

Mae **40%** o drigolion yn rhagweld bydd eu hiechyd corfforol yn gwella

Mae **100%** o drigolion yn rhagweld bydd eu hiechyd meddyliol yn gwella

## Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

### Cymru o Gymunedau Cydlynol

Mae'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer y gwirfoddolwyr i gyd yn ymwneud â gwelliant yn y gymuned leol

### Cymru Iachach

Mae'r canlyniadau a nodir ar gyfer y trigolion i gyd yn ymwneud â gwelliant o fewn llesiant meddyliol a chorfforol

## Rhagolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)*

**£1** → **£3.36**

*Gweler yr adroddiad rhagolwg llawn am ragor o wybodaeth